## RHAN 2 – ERTHYGLAU’R CYFANSODDIAD

### Erthygl 13 - Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol

---

13.1 **Rheolaeth ariannol**

Caiff materion ariannol yr Awdurdod eu rheoli yn unol â’r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

13.2 **Contractau**

Bydd pob contract a wneir gan yr Awdurdod yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Gontractau.

13.3 **Gweithrediadau cyfreithiol**

Mae’r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfreithiol wedi'i awdurdodi i gychwyn, amddiffyn neu gymryd rhan mewn unrhyw weithrediadau cyfreithiol mewn unrhyw achos pan fo rhaid gweithredu i roi penderfyniadau’r Awdurdod ar waith neu mewn unrhyw achos pan fo’r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfreithiol yn ystyried bod rhaid gweithredu felly i amddiffyn buddiannau’r Cyngor.

13.4 **Dilysu dogfennau**

Pan fo rhaid cael unrhyw ddogfen ar gyfer unrhyw weithdrefn neu weithrediadau cyfreithiol ar ran y Cyngor, caiff ei llofnodi gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfreithiol neu gyflogai arall a awdurdodwyd ganddo ef/hi, oni bai fod unrhyw ddeddf a fabwysiadwyd yn awdurdodi neu'n mynnu fel arall, neu fod y Cyngor wedi rhoi'r awdurdod angenrheidiol i berson arall.

Ac eithrio unrhyw gontract a lunnir gan ddefnyddio system gaffael electronig neu sydd â’i werth yn llai na dau deg pump mil o bunnau [£25,000], bydd unrhyw gontract a wneir ar ran yr Awdurdod yn cael ei wneud yn ysgrifenedig a’i lofnodi dan drefniadau a nodwyd yn y Rheolau Gweithdrefn Gontract. Bydd unrhyw gontract a wneir ar ran yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Gweithdrefn Gontract a’r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

13.5 **Sêl Gyffredin y Cyngor**

Caiff Sêl Gyffredin yr Awdurdod ei chadw mewn man diogel yng ngofal y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfreithiol. Bydd penderfyniad yr Awdurdod, neu unrhyw ran ohono, yn awdurdod digonol i selio unrhyw ddogfen sy’n angenrheidiol i weithredu'r penderfyniad. Caiff y Sêl Gyffredin ei hatodi at y dogfennau hynny y dylid eu selio ym marn y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfreithiol. Caiff atodi’r Sêl Gyffredin ei hardystio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfreithiol neu unrhyw gyflogai arall a awdurdodir ganddo/ganddi.